OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 735 (Cy.72) (C.49)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 10 Mawrth 2010

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 120(2) a 125(4) o Ddeddf Addysg 2005(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Addysg 2005.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2005 ac at Atodlenni iddi.

Y Diwrnod Penodedig

2. Daw'r darpariaethau canlynol o Ddeddf 2005 i rym ar 1 Ebrill 2010 o ran Cymru:

(a) adran 101 (ariannu ysgolion a gynhelir) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 16 isod,

(b) adran 117 (diwygiadau pellach) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 18 isod,

(c) adran 123 (diddymu) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 19 isod,

(ch) Atodlen 16, paragraffau 1 i 7 (ariannu ysgolion a gynhelir),

(d) Atodlen 18, paragraffau 5, 7-9, 11, 13, 14 (diwygiadau pellach),

(dd) yn Atodlen 19, yn Rhan 4, diddymu Deddf Safonau ac Fframwaith Ysgolion 1998, adran 45A(5) a (6), Deddf Addysg 2002, adrannau 41(2), 42 ac yn Atodlen 21, paragraffau 124(3) a 125(3), Deddf Llywodraeth Leol 2003, yn Atodlen 7, paragraff 66.

(**1**) 2005 p.18.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2010

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2010 adran 101 o Ddeddf Addysg 2005 ac Atodlen 16 iddi (a diwygiadau canlyniadol perthynol a diddymiadau yn Atodlenni 18 a 19) ynghylch ariannu ysgolion a gynhelir.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2005 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Darpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*O.S. Rhif*
Adrannau 19 i 47	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adrannau 50 i 52	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 53 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 54	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adrannau 55 i 57	1 Ebrill 2007	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adrannau 58 i 60	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 61 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 71	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 105	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 106	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 115	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 116	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 117 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 118	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 123 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Adran 123 yn rhannol	1 Ebrill 2007	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Atodlenni 2 i 6	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Atodlen 7 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Atodlen 8	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Atodlen 9 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Atodlen 18 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)
Atodlen 19 yn rhannol	1 Medi 2006	O.S. 2006/1338 (Cy.130)

Darpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*O.S. Rhif*
Atodlen 19 yn rhannol	1 Ebrill 2007	O.S. 2006/1338 (Cy.130)

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf Addysg 2005 wedi'u dwyn i rym o ran Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2005/2034, O.S. 2006/2129.